O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2021 Rhif 1225 (Cy. 308)**

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Esgobaeth Bangor (Gwaddolion Addysgol) (Ysgol Llanddeusant) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi Ymddiriedolaeth Esgobaethol Bangor fel ymddiriedolwr ar waddol y sefydliad addysgol sy'n cael ei adnabod fel Ysgol Llandeusant, Llanddeusant, Caergybi, LL65 4AD.

Mae'n creu dwy ymddiriedolaeth ar wahân, a elwir yn eu tro yn Gronfa'r Ysgol a'r Gronfa Addysg Grefyddol, ac yn rhannu asedau'r Sefydliad rhyngddynt.

Mae Cronfa'r Ysgol yn cael ei sefydlu o dan yr ymddiriedolaethau statudol unffurf fel y'u nodir yn yr Atodlen er budd ysgolion gwirfoddol a sefydledig yr Eglwys yng Nghymru yn yr Esgobaeth.

Mae'r Gronfa Addysg Grefyddol yn cael ei sefydlu er mwyn darparu addysg grefyddol yn unol ag athrawiaethau'r Eglwys yng Nghymru o fewn y plwyf y lleolwyd yr ysgol ynddo.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 1225 (Cy. 308)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Esgobaeth Bangor (Gwaddolion Addysgol) (Ysgol Llanddeusant) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2021* |

Dangoswyd er bodlonrwydd Gweinidogion Cymru fod y Gwaddol yn cael neu wedi cael ei ddal mewn cysylltiad â darparu addysg grefyddol yn unol â daliadau'r Eglwys yng Nghymru mewn ysgol wirfoddol nad yw ei mangre bellach yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ysgol o'r fath.

Gwnaed cais am Orchymyn sy'n gwneud darpariaeth newydd ar gyfer defnyddio'r Gwaddol i Weinidogion Cymru gan Fwrdd Cyllid Esgobaethol Bangor, sef y corff y mae'n ymddangos i Weinidigon Cymru mai hwnnw yw awdurdod priodol yr Eglwys yng Nghymru at y diben hwnnw.

Rhoddwyd hysbysiad o'r Gorchymyn arfaethedig ac am hawl unrhyw bersonau sydd â diddordeb i wneud cynrychioliadau yn unol â darpariaethau adran 555 o Ddeddf Addysg 1996.

Ni wnaed unrhyw gynrychioliadau mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig.

Asedau'r Sefydliad yw £41,800, sef enillion net ar werthiant mangre'r ysgol flaenorol ar 10 Chwefror 2017 a gynhwyswyd yn y weithred Sefydlu, a hefyd unrhyw incwm a ddeilliodd o'r asedau hynny cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 554 a 556 o

Ddeddf Addysg 1996, ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**1**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Esgobaeth Bangor (Gwaddolion Addysgol) (Ysgol Llanddeusant) 2021 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2021.

(2) Mae'r Gorchymyn yma yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "asedau'r Sefydliad" *("the Foundation assets")* yw'r asedau sydd ar hyn o bryd yn cynrychioli'r Gwaddol;

ystyr "yr Atodlen" *("the schedule")* yw'r atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "Cronfa'r Ysgol" ("*the School Fund*") yw'r gronfa ysgol a sefydlwyd o dan Erthygl 4(a);

ystyr "Erthygl" (*"Article")* yw erthygl yn y Gorchymyn hwn;

ystyr "yr Esgobaeth" *("the Diocese")* yw Esgobaeth Bangor ac mae "yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol" *("the Diocesan Trust")* i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "y Gronfa Addysg Grefyddol" *("the Religious Education Fund")* yw cronfa addysg grefyddol a sefydlwyd gan Erthygl 4(b);

ystyr "y Gwaddol" *("the Endowment")* yw'r gwaddol sydd yn y weithred Sefydlu;

mae "paragraff" *("paragraph")* a ddilynir gan rif penodedig mewn unrhyw Erthygl yn cyfeirio at y paragraff o dan y rhif hwnnw yn yr Erthygl honno;

ystyr "y Sefydliad" *("the Foundation")* yw'r sefydliad addysgol a elwir yn Ysgol Llanddeusant a sefydlwyd yn y weithred Sefydlu;

---

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 554(1) gan baragraff 168(2) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 1998(p.15). Mewnosodwyd adran 554(3)(a) gan baragraff 168(3) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 1998. Cafodd adran 554(3)(b) ei ddiwygio gan barargaff 168(3)(b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 1998. Diwygiwyd adran 556(2)(a) gan barargaff 169(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 1998. Diwygiwyd adran 556(2)(b) gan barargaff 169(b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 1998. Trosgwlyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 554 a 556 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan barargaff 30 o Atodlen 11 i Dddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

ystyr "y weithred Sefydlu" *("the Founding deed")* yw'r weithred a wnaed ar 3 Medi 1847 rhwng (1) James Williams, Rheithor Llanddeusant a (2) Esgob Bangor, Archddiacon Bangor a Rheithor Llanddeusant;

mae i "ysgol sefydledig" yr un ystyr â "*foundation school*" yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**); ac

mae i "ysgol wirfoddol" yr un ystyr â "*voluntary school*" yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**Ymddiriedolwr a breinio**

**3.**—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol yn Ymddiriedolwr—

(a) y Sefydliad,

(b) asedau'r Sefydliad,

(c) Cronfa'r Ysgol, ac

(d) y Gronfa Addysg Grefyddol.

(2) Caiff yr holl arian sydd, yn union cyn dyddiad y Gorchymyn hwn, yn perthyn i'r Sefydliad neu sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar ei gyfer, (heblaw am yr arian hwnnw sydd eisoes yn cael ei ddal gan yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol) ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Esgobaethol, a rhaid i bob cam sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw gael ei gymryd gan unrhyw berson sy'n dal arian o'r fath.

**Rhannu Asedau**

**4.** Caiff asedau'r Sefydliad eu rhannu yn ddwy gronfa ymddiriedolaeth ar wahân sef—

(a) Cronfa'r Ysgol sydd wedi'i gyfansoddi o 11/14 rhan o asedau'r Sefydliad, a

(b) y Gronfa Addysg Grefyddol sydd wedi'i gyfansoddi o 3/14 rhan o asedau'r Sefydliad.

**Gweinyddu Sefydliad**

**5.**—(1) Ar ôl talu unrhyw dreuliau gweinyddol, bydd yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol yn talu am y gyfran honno o gyfalaf ac incwm asedau'r Sefydliad sy'n cynrychioli'r Gronfa Addysg Grefyddol i Ficer, neu i Reithor, a Wardeiniaid Eglwys y plwyf y sefydlwyd y Sefydliad ar ei gyfer i ddarparu addysg grefyddol.

(2) Bydd pob Ficer, neu Reithor, a Wardeiniaid Eglwys, y mae taliad yn cael ei wneud iddynt yn unol â darpariaethau'r paragraff blaenorol yn cael eu gwneud yn ymddiriedolwyr y Gronfa Addysg Grefyddol a gallant gadw cyfalaf y Gronfa a

(**1**) 1998 p.31.

defnyddio'r incwm sy'n cronni o hynny, neu'r cyfalaf o hynny, at ddibenion addysgol sy'n gysylltiedig â'r plwyf mewn perthynas â darparu addysg grefyddol yn unol â daliadau'r Eglwys yng Nghymru trwy gyfrwng Ysgol Sul neu fel arall.

(3) Bydd yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol yn dal Cronfa'r Ysgol ar yr ymddiredolaethau statudol unffurf er budd ysgolion gwirfoddol neu sefydledig yr Eglwys yng Nghymru o fewn yr Esgobaeth.

(4) Yn yr erthygl hon ystyr "ymddiriedolaethau statudol unffurf" yw'r ymddiriedolaethau sydd wedi'u nodi yn yr Atodlen (sef yr ymddiriedolaethau statudol unffurf sydd wedi'u nodi yn Atodlen 36 i Ddeddf Addysg 1996 fel y maent yn gymwys mewn perthynas â'r Gronfa Ysgol).

### Cydgrynhoi

**6.** Gellir cydgrynhoi Cronfa'r Ysgol ag unrhyw waddol sydd eisoes yn bodoli sy'n cael eu dal at y dibenion a bennir yn yr Atodlen.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
1 Tachwedd 2021

## YR ATODLEN Erthygl 5

**1.** Gall yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol, ar ôl iddi dalu unrhyw dreuliau a dynnwyd mewn cysylltiad â gweinyddu Cronfa'r Ysgol, ddefnyddio cyfalaf ac incwm y Gronfa honno at unrhyw un o'r dibenion canlynol:

(a) ar gyfer neu tuag at brynu safle ar gyfer mangre unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth, neu ar gyfer neu tuag at godi, gwella neu ymestyn mangre o'r fath;

(b) ar gyfer cynnal a chadw unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth;

(c) ar gyfer neu tuag at brynu safle ar gyfer mangre tŷ athro neu athrawes er mwyn ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth, neu ar gyfer neu tuag at godi, gwella neu ymestyn mangre o'r fath; ac

(d) ar gyfer cynnal a chadw tŷ athro neu athrawes er mwyn ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth.

**2.** Gall yr Ymddiredolaeth Esgobaethol hefyd, wedi iddi dalu unrhyw dreuliau a dynnwyd mewn perthynas â gweinyddu Cronfa'r Ysgol, ddefnyddio incwm y Gronfa honno at unrhyw un o'r dibenion canlynol—

(a) ar gyfer neu tuag at ddarparu cyngor, cyfarwyddyd ac adnoddau (gan gynnwys deunyddiau) mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n gysylltiedig â rheoli, neu'r addysg sy'n cael ei darparu mewn, unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth;

(b) darparu gwasanaethau ar gyfer cynnal unrhyw arolygiad o unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth sy'n ofynnol o dan Ran 1 o Ddeddf Addysg 2005(**1**); ac

(c) talu'r gost o gyflogi neu gymryd ymlaen staff mewn cysylltiad â —

   (i) defnyddio incwm Cronfa'r Ysgol at y naill neu'r llall o'r dibenion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) a (b) uchod,

   (ii) defnyddio cyfalaf neu incwm Cronfa'r Ysgol at unrhyw un o'r dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 uchod.

**3.** Ystyr "ysgol berthnasol" yw ysgol o'r math y cyfeirir ati yn Erthygl 5(3).

---

(**1**) 2005 p.18.